# DATGANIAD LLESIANT CYNGOR GWYNEDD 2023/24

## Cyflwyniad

Rydym fel Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau Gwynedd.

Byddwn yn sicrhau bod y Cyngor yn ystyried yr hirdymor, gan gydweithio ac ystyried pobl o bob oedran wrth ddatrys ac atal problemau. Bydd gweithredu yn y modd hwn yn ein galluogi i gwrdd ag anghenion presennol ein cymunedau gan sicrhau nad yw penderfyniadau heddiw yn niweidiol i genedlaethau'r dyfodol.

Adolygwyd ein hamcanion llesiant fel rhan o'r broses o lunio Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-28. Wrth osod ein hamcanion llesiant, rydym wedi ystyried nifer o ffynonellau tystiolaeth gan gynnwys gwybodaeth o sesiynau ymgynghori a gynhaliwyd gydag Aelodau Etholedig, ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus ar flaenoriaethau arfaethedig ar gyfer Cynllun y Cyngor a chanlyniadau Asesiadau Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn a gyhoeddwyd yn 2022.

Mae ein hamcanion llesiant yn cyfrannu'n uniongyrchol tuag at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol (fel y nodir isod) ac yn cynnwys y camau ymarferol neu brosiectau y byddwn yn eu gweithredu er mwyn cyfrannu tuag at yr amcan. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

## Amcanion Llesiant y Cyngor (meysydd blaenoriaeth o fewn Cynllun y Cyngor)

Dyma'r saith amcan llesiant -

- **GWYNEDD YFORY** - Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc
- **GWYNEDD LEWYRCHUS -** Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng
- **GWYNEDD GLYD -** Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau
- **GWYNEDD OFALGAR -** Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau
- **GWYNEDD GYMRAEG -** Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.
- **GWYNEDD WERDD -** Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd
- **GWYNEDD EFFEITHLON -** Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon

**Nodau Llesiant Cenedlaethol**
Ceir crynodeb o'r nodau llesiant cenedlaethol isod.




### CYMRU LEWYRCHUS

Cymdeithas arloesol sy'n defnyddio adnoddau'n ddarbodus, pobl addysgedig, sy'n creu cyfoeth a gwaith.

### CYMRU GYDNERTH

Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau iach sy'n cefnogi gwydnwch a gyda'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

### CYMRU IACHACH

Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle mae pobl yn deall beth sy'n effeithio ar eu hiechyd.

### CYMRU FWY CYFARTAL

Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

### CYMRU O GYMUNEDAU CYDLYNUS

Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

### CYMRU Â DIWYLLIANT BYWIOG LLE MAE'R GYMRAEG YN FFYNNU

Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

### CYMRU SY'N GYFRIFOL AR LEFEL FYD-EANG

Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

## Sut mae amcanion llesiant y Cyngor yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol?

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r cyswllt rhwng ein hamcanion llesiant a'r nodau llesiant cenedlaethol. Nodir hefyd bod ein gwaith dydd i ddydd yn cyfrannu tuag at y nodau llesiant cenedlaethol.

| | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant bywiog lle mae' r iaith Gymraeg yn ffynnu | Yn gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GWYNEDD YFORY<br>Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc | ■ | | ■ | ■ | | ■ | |
| GWYNEDD LEWYRCHUS<br>Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng | ■ | ■ | | ■ | ■ | ■ | |
| GWYNEDD GLYD<br>Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau | | ■ | ■ | ■ | ■ | | |
| GWYNEDD OFALGAR<br>Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau | ■ | | ■ | ■ | ■ | | |
| GWYNEDD GYMRAEG<br>Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. | | | | | ■ | ■ | |
| GWYNEDD WERDD<br>Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd | ■ | ■ | | | ■ | | ■ |
| GWYNEDD EFFEITHLON<br>Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon | ■ | | | ■ | | | |

**Sut y byddwn yn gweithredu?**

Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy, a defnyddio'r pum ffordd o weithio, yn ganolog i'r gwaith rydym wedi'i wneud er mwyn adnabod ein hamcanion a'r prosiectau a byddwn yn ceisio sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â'r egwyddorion hyn i'r dyfodol.

- **Tymor Hir -** Cydbwyso anghenion tymor byr gyda rhai hirdymor a chynllunio ar gyfer y dyfodol.
- **Atal -** Neilltuo adnoddau ar gyfer atal problemau rhag digwydd neu waethygu. Byddwn yn rhoi sylw i broblemau drwy atal ac ymyrryd yn fuan yn hytrach na thrwy ymateb.
- **Integreiddio -** Cael effaith gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a diwylliant.
- **Cydweithredu -** Gweithio gyda phartneriaid eraill i ddarparu gwasanaethau
- **Cynnwys (Cyfathrebu ac Ymgysylltu) -** Cynnwys pobl Gwynedd wrth geisio gwireddu ein cynllun a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal.

Byddwn yn adrodd ar gynnydd tuag at ein hamcanion llesiant, ynghyd â rhoi'r 5 ffordd o weithio ar waith, fel rhan o'n trefniadau adrodd ar berfformiad ac yn benodol o fewn Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor. Yn ogystal, byddwn yn sicrhau bod yr amcanion a'r prosiectau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol a pherthnasol.

| Cyfraniad prosiectau Cynllun y Cyngor at y 5 ffordd o weithio | | Hirdymor | Atal | Integrei-ddio | Cydweithio | Cynnwys |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **GWYNEDD YFORY** | Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Cinio ysgol am ddim | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| | Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau'r gost o anfon plant i'r ysgol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **GWYNEDD LEWYRCHUS** | Hyrwyddo ein diwylliant ac economi ymweld gynaliadwy | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Adfywio cymunedau a chanol trefi | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Cadw'r Budd yn Lleol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **GWYNEDD GLYD** | Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| | Ymdrin efo'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd | ✓ | ✓ | | ✓ | |
| | Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd | ✓ | ✓ | | ✓ | |
| | Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **GWYNEDD OFALGAR** | Cefnogaeth Ataliol yn Lleol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Byw'n Annibynnol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Gofal Arbenigol o Ansawdd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Cefnogi Llesiant Pobl | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Cynllun Awtistiaeth | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ |
| | Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **GWYNEDD GYMRAEG** | Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant | ✓ | ✓ | | | |
| | Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **GWYNEDD WERDD** | Gweithredu ar risgiau llifogydd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Gwastraff ac ailgylchu | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Teithio Llesol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Trafnidiaeth Gyhoeddus | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cynllun Datblygu Lleol newydd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Cymunedau Glân a Thaclus | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **GWYNEDD EFFEITHLON** | Cynllunio'r Gweithlu | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Datblygu diwylliant y Cyngor | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Sicrhau tegwch i bawb | ✓ | ✓ | | ✓ | |
| | Merched mewn arweinyddiaeth | | | | ✓ | |
| | Rheoli effaith toriadau cyllidol cenedlaethol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Cynllun Digidol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Adolygiad strategol ar reolaeth Iechyd a Diogelwch | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo er mwyn sicrhau bod ein hystâd yn addas i bwrpas ar gyfer gweithio yn y dyfodol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |